

Canllaw i ganlyniadau

Tystysgrifau a Diplomâu

Lefel 3 Cymhwysol

Tachwedd 2020

1. Diwrnod y Canlyniadau

i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau o safle eu hysgol neu goleg, fel arfer ar Ddiwrnod Canlyniadau swyddogol y cymwysterau y maent wedi eu sefyll.

Diwrnod cyhoeddi canlyniadau Tachwedd 2020 yw **dydd Iau 17 Rhagfyr**.

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod i'r holl ymgeiswyr beth yw trefniadau casglu eu canlyniadau. Dylid rhoi gwybod iddynt hefyd gyda pha aelodau o staff yr ysgol neu'r coleg y dylent drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd ganddynt am ganlyniadau. Efallai y bydd angen i'r trefniadau fod yn wahanol i rai blynyddoedd blaenorol, a bydd angen ystyried cyngor diweddaraf y llywodraeth ar gyfer eich ardal.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau gyda'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon. Mae'r wybodaeth hon yn arbennig o bwysig o ran cyfres Tachwedd 2020, gan fod diwrnod y canlyniadau mor agos at ddiwedd tymor yr Hydref.

ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar Ddiwrnod y Canlyniadau, bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno. Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Farcio neu Gymedroli. Gweler adran 4 yn ogystal â'n tudalen [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau](#).

iii) Sut mae'r slip yn dangos y canlyniadau?

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cydran/cymhwyster a safodd ymgeisydd yn ystod y gyfres arholiadau honno (gweler atodiad 1).

- Ar gyfer **cymwysterau unedol**, bydd canlyniadau'n dangos marc GMU a gradd gyffredinol ar gyfer y pwnc, ar yr amod bod y pwnc wedi'i gyfnewid i'w agregu, yn ogystal â marc unffurf (GMU) a gradd ar gyfer pob uned. Os disgwylir gradd gyffredinol nad yw wedi'i chynnwys ar y slip canlyniadau, dylid cysylltu â'r Swyddog Arholiadau yn y ganolfan i wirio bod cofrestriad cyfnewid wedi'i wneud.
- Ar gyfer **cymwysterau llinol**, bydd canlyniadau'n dangos y radd gyffredinol ar gyfer y pwnc. Bydd y marc ar gyfer cydrannau unigol i'w weld hefyd.

iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau a marciau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae **X** yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb yr ymgeisydd ar gyfer pob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae **Q** yn dangos bod canlyniad i ddod neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

Gweler atodiad 1 am enghraifft o slip canlyniadau.

2. Deall canlyniadau

i) Esbonio graddau

Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio o A-E, y radd uchaf yw A. Ar gyfer y Diplomâu, wedi'u graddio o A*-E, y radd uchaf yw A*.

Ar gyfer cymwysterau wedi'u graddio P/M/D/D*, P = Llwyddiant, M = Teilyngdod, D = Rhagoriaeth y radd uchaf yw D* (Rhagoriaeth*).

Os yw lefel cyflawniad ymgeisydd islaw'r safon isaf, bydd yr ymgeisydd hwnnw'n derbyn canlyniad annosbarthedig (U) ac ni fydd yn derbyn tystysgrif am y cymhwyster. Mae Tabl 1 isod yn rhoi manylion am raddau'r uned a'r cymhwyster.

Cymhwyster	Gradd y Cymhwyster	Gradd yr Uned
Tystysgrif mewn Busnes	A-E	A-E
Tystysgrif mewn Troseddeg	A-E	A-E
Tystysgrif mewn Gwyddor Bwyd a Maeth	P/M/D/D*	P/M/D
Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	A-E	A-E
Tystysgrif mewn Gwyddor Feddygol	A-E	A-E
Tystysgrif mewn Datrys Problemau Ystadegol gan Ddefnyddio Meddalwedd	P/M/D/D*	P/M/D
Tystysgrif mewn Twristiaeth	A-E	A-E
Diploma mewn Busnes	A*-E	A-E
Diploma mewn Troseddeg	A*-E	A-E
Diploma mewn Gwyddor yr Amgylchedd	P/M/D/D*	P/M/D
Diploma mewn Gwyddor Bwyd a Maeth	P/M/D/D*	P/M/D
Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	A*-E	A-E
Diploma mewn Gwyddor Feddygol	A*-E	A-E
Diploma mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol	A*-E	A-E
Diploma mewn Twristiaeth	A*-E	A-E
Diploma Estynedig mewn Gwyddor yr Amgylchedd	P/M/D/D*	P/M/D

Tabl 1

O gyfres Mehefin 2018 ymlaen, cyflwynir rheol "prin yn llwyddo" i bob uned a gaiff ei hasesu'n allanol yn y cymwysterau canlynol:

Bydd ymgeisydd yn ennill gradd llwyddiant (neu uwch) os yw'n cwrdd â'r ddau ofyniad canlynol:

- Cyrraedd y cyfanswm GMU sydd ei angen ar y radd berthnasol i'r cymhwyster yn gyffredinol fel y nodir yn y tablau yn adran 3.
- Wedi cyrraedd y lleiafswm GMU o leiaf ar gyfer yr uned(au) perthnasol yn nhabl 2.

Ni fydd "Prin yn Llwyddo" yn cael ei drin fel gradd nac yn cael ei adrodd felly.

Pwnc ac uned a asesir yn allanol	Gofyniad GMU lleiaf "Prin yn Llwyddo"
Arfer Adeiladu Proffesiynol – Uned 2	24 GMU
Arfer Adeiladu Proffesiynol – Uned 3	24 GMU
Busnes – Uned 1	30 GMU
Busnes – Uned 3	30 GMU
Busnes – Uned 4	30 GMU
Datrys Problemau Ystadegol – Uned Allanol	24 GMU
Gwyddor Bwyd a Maeth – Uned 1 Allanol	30 GMU
Gwyddor Bwyd a Maeth – Uned 2	30 GMU
Gwyddor Feddygol – Uned 1	72 GMU
Gwyddor Feddygol – Uned 5	36 GMU
Gwyddor Feddygol – Uned 6	36 GMU
Gwyddor yr Amgylchedd – Uned 2	36 GMU
Gwyddor yr Amgylchedd – Uned 4	42 GMU
Gwyddor yr Amgylchedd – Uned 5	36 GMU
Gwyddor yr Amgylchedd – Uned 9	42 GMU
Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Uned 1	30 GMU
Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Uned 5	30 GMU
Troseddeg – Uned 2	30 GMU
Troseddeg – Uned 4	30 GMU
Twristiaeth – Uned 1	30 GMU
Twristiaeth – Uned 3	30 GMU

Tabl 2

ii) Esbonio marciau

- **Marciau crai**

Nifer y marciau y mae ymgeisydd yn ei ennill mewn arholiad neu asesiad yw marc crai.

- **Graddfa Marciau Unffurf (GMU)**

Mewn Manylebau **unedol** mae marciau crai yn cael eu trosi'n farc unffurf (GMU) sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi ac agregu canlyniadau asesu unedau ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un GMU, pryd bynnag y cymerwyd yr uned.

iii) Sut mae marciau'n cael eu trosi'n raddau?

- Mewn **cymwysterau llinol**, mae nifer penodol o farciau crai i bob cydran/uned. Fodd bynnag, gall cydrannau/unedau o fewn cymhwyster fod â phwysoli gwahanol. Mae ffactor pwysoli (y cyfeirir atyn nhw hefyd fel ffactorau agregu neu raddoli) yn cael ei gymhwyso wrth gyfrifo cyfanswm y marciau. Mae pwysoli yn esbonio pam nad yw'r marciau crai ar gyfer cydrannau/unedau unigol bob amser yn adio i gyfanswm y marciau ar gyfer y cymhwyster. Gellir cyfrifo'r marc pwysol ar gyfer pob cydran trwy luosi'r marc crai ar gyfer cydran/uned â'i ffactor pwysoli.
- Yn y cymwysterau unedol, cyfrifir gradd gyffredinol y cymhwyster gan adio'r marciau unffurf a enillwyd yn yr unedau unigol at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm marciau unffurf i'r ymgeiswyr sy'n trosi'n radd gyffredinol yn seiliedig ar ffin y radd.

3. Ffiniau Graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau sydd eu hangen i ennill pob gradd. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff arholiad ei sefyll.

- Gyda Chymwysterau Llinol, dyfernir un radd am y pwnc yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer pob cydran/uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.

Mae'r ffiniau graddau 'tybiannol' ar gyfer pob cydran hefyd ar gael. Mae ffiniau graddau yn 'dybiannol' a bwriedir iddyn nhw fod yn arweiniad yn unig, nid graddau swyddogol ydyn nhw.

Ar ddiwrnod y canlyniadau, bydd yr holl ffiniau graddau llinol a'r uchafsymiau marciau i'w gweld ar ein gwefan o 8am. Nid yw'r ffiniau graddau GMU unedol yn newid o gyfres i gyfres. Mae'r ffiniau graddau i'w gweld ar ein [gwefan](#).

- Gyda chymwysterau Unedol, mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Rhestrir ffiniau graddau GMU cyffredinol ac unedol yn nhablau 3 i 12 isod.

Diploma Cymhwysol a Diploma Estynedig mewn Gwyddor yr Amgylchedd

Mae gan y Diploma bedair uned orfodol (unedau 1-4) ac mae gan y Diploma Estynedig saith uned orfodol ac un o ddwy uned ddewisol (uned 6 neu 7).

I gyflawni Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Rhagoriaeth* am y Diploma, rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU isaf am radd y cymhwyster a llwyddo o leiaf **ym mhob uned**.

I gyflawni Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Rhagoriaeth* am y Diploma Estynedig, rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU isaf am radd y cymhwyster a llwyddo o leiaf yn unedau 4 a 9.

	GMU Uchaf	D*	D	M	P
Uned 1 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 2 (Allanol)	120		96	72	48
Uned 3 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 4 (Allanol)	140		112	84	56
Diploma	500	450	400	300	200
Uned 1 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 2 (Allanol)	120		96	72	48
Uned 3 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 4 (Allanol)	140		112	84	56
Uned 5 (Allanol)	120		96	72	48
Uned 6 neu 7 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 8 (Mewnol)	120		96	72	48
Uned 9 (Allanol)	140		112	84	56
Diploma Estynedig	1000	900	800	600	400

Tabl 3

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Feddygol

Mae gan y Dystysgrif dair uned orfodol ac mae gan y Diploma chwe uned orfodol.

I gyflawni gradd A-E rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU lleiaf am y radd a llwyddo o leiaf ym mhob uned.

Bydd gradd A* yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni gradd A (768 GMU) ac o leiaf 90% o'r GMU am Unedau 4, 5 a 6.

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 (Allanol)	240	192	168	144	120	96
Uned 2 (Mewnol)	120	96	84	72	60	48
Uned 3 (Mewnol)	120	96	84	72	60	48
Tystysgrif	480	384	336	288	240	192
Uned 1 (Allanol)	240	192	168	144	120	96
Uned 2 (Mewnol)	120	96	84	72	60	48
Uned 3 (Mewnol)	120	96	84	72	60	48
Uned 4 (Mewnol)	240	192	168	144	120	96
Uned 5 (Allanol)	120	96	84	72	60	48
Uned 6 (Allanol)	120	96	84	72	60	48
Diploma	960	768	672	576	480	384

Tabl 4

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Troseddeg

Mae gan y Dystysgrif ddwy uned orfodol (unedau 1 a 2) ac mae gan y Diploma bedair uned orfodol (unedau 1-4).

I gyflawni gradd A-E rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU lleiaf am y radd a llwyddo o leiaf ym mhob uned. Bydd gradd A* yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni gradd A (320 GMU) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y GMU yn Unedau 3 a 4.

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Tystysgrif	200	160	140	120	100	80
Uned 1 (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 3 (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 4 (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Diploma	400	320	280	240	200	160

Tabl 5

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Busnes

Mae gan y Dystysgrif hon ddwy uned orfodol – Uned 1 ac Uned 2 ac mae gan y Diploma bum uned. Mae ymgeiswyr yn cwblhau pedair uned, y mae tair ohonyn nhw'n unedau gorfodol (Unedau 1, 2 a 5). Bydd ymgeiswyr yn cael dewis cwblhau **naill ai** Uned 3 **neu** Uned 4.

I gyflawni gradd A-E rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU lleiaf am y radd a llwyddo o leiaf ym mhob uned. Bydd gradd A* yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni Gradd A (320 GMU) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y GMU yn unedau 3 neu 4 ac uned 5.

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – Mewnol	100	80	70	60	50	40
Tystysgrif	200	160	140	120	100	80
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – Mewnol	100	80	70	60	50	40
Uned 3 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 4 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 5 – Mewnol	100	80	70	60	50	40
Diploma	400	320	280	240	200	160

Tabl 6

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae gan y Dystysgrif hon ddwy uned orfodol – Uned 1 ac Uned 2 ac mae gan y Diploma dair uned orfodol – Uned 1, 2 a 5 ac un o ddwy uned ddewisol – Unedau 3 a 4 (cyfanswm o bedair uned).

Dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni Gradd A (320 o farciau unffurf) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer y ddwy uned diploma ychwanegol (unedau 3 neu 4 ac uned 5).

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Tystysgrif	200	160	140	120	100	80
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 3 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 4 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 5- (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Diploma	400	320	280	240	200	160

Tabl 7

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Bwyd a Maeth

Mae gan y dystysgrif un uned orfodol gydag asesu mewnol ac allanol ac mae gan y Diploma ddwy uned orfodol ac un o ddwy uned ddewisol (uned 3 neu 4).

I gyflawni Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Rhagoriaeth*, rhaid i ddysgwyr ennill y marc GMU gofynnol am radd y cymhwyster ac o leiaf gradd Llwyddiant ym mhob uned.

		GMU Uchaf	D*	D	M	P
Uned 1	(Mewnol)	100		80	60	40
	(Allanol)	100		80	60	40
Tystysgrif		200	180	160	120	80
Uned 1	(Mewnol)	100		80	60	40
	(Allanol)	100		80	60	40
Uned 2 (Allanol)		100		80	60	40
Uned 3 (Mewnol)		100		80	60	40
Uned 4 (Mewnol)		100		80	60	40
Diploma		400	360	320	240	160

Tabl 8

Diploma Cymhwysol mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol

Mae gan gymhwyster CBAC Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol 4 uned. Mae pob uned yn orfodol.

I gyflawni gradd A-E rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU lleiaf am y radd a llwyddo o leiaf ym mhob uned. Dyfernir gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni gradd A (320 GMU) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm yr GMU yn Uned 4.

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 – (Mewnol)	80	64	56	48	40	32
Uned 2 – (Allanol)	80	64	56	48	40	32
Uned 3 – (Allanol)	80	64	56	48	40	32
Uned 4 – (Mewnol)	160	128	112	96	80	64
Diploma	400	320	280	240	200	160

Tabl 19

Tystysgrif Gymhwysol mewn Datrys Problemau Ystadegol gan Ddefnyddio Meddalwedd

Mae gan y dystysgrif un uned gyda dwy gydran orfodol.

I gyflawni Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Rhagoriaeth*, rhaid i ddysgwyr ennill y marc GMU lleiaf am radd y cymhwyster ac o leiaf gradd Llwyddiant ym mhob cydran.

		GMU Uchaf	D*	D	M	P
Uned 1	(Mewnol)	120		96	72	48
	(Allanol)	80		64	48	32
Tystysgrif L3		200	180	160	120	80

Tabl 10

Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Twristiaeth

Mae gan y Dystysgrif ddwy uned orfodol ac mae gan y Diploma bedair uned. Mae pob uned yn orfodol.

I gyflawni gradd A-E rhaid i ymgeiswyr ennill y GMU lleiaf am y radd a llwyddo o leiaf ym mhob uned. Ar gyfer y Diploma, bydd gradd A* yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni gradd A (320 GMU) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y GMU yn Unedau 3 a 4.

	GMU Uchaf	A	B	C	D	E
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Tystysgrif	200	160	140	120	100	80
Uned 1 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 2 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Uned 3 – (Allanol)	100	80	70	60	50	40
Uned 4 – (Mewnol)	100	80	70	60	50	40
Diploma	400	320	280	240	200	160

Tabl 11

4. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael. Oherwydd bod diwrnod canlyniadau Tachwedd 2020 mor agos at ddiwedd tymor yr Hydref caiff ymgeiswyr eu cynghori i drafod â'u canolfannau a phenderfynu pa drefniadau fyddai orau ar gyfer cysylltu â nhw yn syth ar ôl y canlyniadau. Rhaid i'r ymgeiswyr gysylltu â'u canolfan i gael gwybod beth yw canlyniad unrhyw ymholiad am ganlyniadau. Ni all CBAC gadarnhau canlyniad unrhyw ymholiad yn uniongyrchol â'r ymgeiswyr.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am un neu fwy o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau a gynigir gan CBAC. Ni all ymgeiswyr mewnlol na rhieni wneud cais. Gall ymgeiswyr preifat gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau CBAC i gyflwyno cais.

Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:

- **Dychwelyd sgriptiau** – fersiwn electronig o'r sgript, naill ai fel copi blaenoriaethol cyn gwneud cais am adolygiad o'r marcio neu fel gwasanaeth nad yw'n flaenoriaethol ar gyfer dysgu ac addysgu.
- **Ailwiriad clerigol** – ailwiriad yw hwn o'r holl weithdrefnau clerigol sy'n arwain at gyhoeddi canlyniad.
- **Adolygu'r marcio ar ôl y canlyniadau** – adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio y cytunwyd arno wedi'i ddefnyddio'n gywir
- **Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau** – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Am fanylion pellach, ewch i'n tudalen [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau](#) a chyfeiriwch at y wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC am weithdrefnau [Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau](#).

Mae'n bwysig nodi y gall marciau aros yr un fath, neu godi neu ostwng, wrth wneud cais am ailwiriad clerigol neu adolygiad o farcio. Felly, rhaid i ymgeiswyr lofnodi dogfen yn cydsynio i'r cais cyn i ysgol neu goleg ei gyflwyno.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

Bydd swyddfeydd CBAC ar gau o ddydd Mercher 23 Rhagfyr ac yn ailagor ddydd Llun 4 Ionawr 2021. Ni fydd unrhyw geisiadau'n cael eu prosesu yn ystod y cyfnod hwn.

5. Pryd bydd tystysgrifau ar gael?

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn 26 Mawrth 2021.

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Rhaid i

Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na 31 Ionawr 2021. Os na fydd gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau'r trefniadau ar gyfer derbyn eu dystysgrifau gyda'u hysgol neu goleg.

Atodiad 1



SUMMARY OF RESULTS

LEVEL 3 NEW QUALIFICATIONS JUNE 2017

RHIF Y GANOLFAN 68000	ENW'R GANOLFAN CANOLFAN BRAWF				
RHIF YR YMGEISYDD 50000	ENW'R YMGEISYDD CYFENW ENW CYNTAF			DYDDIAD GENI 01/01/00	
UCI YMGEISYDD		RHIF DYSGWR UNIGRYW (ULN) YR YMGEISYDD			

			UMS	Paper	Mark	Grade
ENVIRONMENTAL SCIENCE	DIPLOMA CASH IN	4473QD	238			P
ENVIRONMENTAL SCIENCE UNIT 1	UNIT 1	4473U1	062	01:UNIT 1 CONTROLLED	060 (120)	P
ENVIRONMENTAL SCIENCE UNIT 2	UNIT 2	4473U2	049	01:UNIT2 EXT. ASSIGNMENT	051 (120)	P
ENVIRONMENTAL SCIENCE UNIT 4	UNIT 4	4473U4	056	01:UNIT 4 PAPER	024 (090)	P

1 2 3 4 5 6 7 8

1	Yn dangos y pwnc y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano
2	Yn dangos yr opsiwn y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano
3	Yn dangos rhif y pwnc
4	Yn dangos y marc GMU sydd ar gael am y gydran a'r cymhwyster
5	Yn dangos y papur y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano
6	Yn dangos y marc crai
7	Yn dangos y cyfanswm marciau crai
8	Yn dangos y radd am y gydran a'r cymhwyster